caru cymru
Gofalu am ein gwlad
Caring for Wales



# Canllaw Caru Cymru: Sbwriel ar Ochr y Ffordd

## Crynodeb

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas
Llywodraeth Cymru
Welsh Government

cadwch gymru'n daclus
keep wales tidy

## Pam mae sbwriel ar ochr y ffordd yn bwysig?

Mae sbwriel yn felltith ar ein strydoedd ac yn ein cymunedau ac yn gostus i ni. Yng Nghymru, caiff cefnffyrdd a phriffyrdd eu rheoli gan yr Asiantaethau Cefnffyrdd (o dan Lywodraeth Cymru) ac mae gweddill y ffyrdd yn gyfrifoldeb i'r awdurdodau lleol perthnasol. Mae data sbwriel ar ochr y ffordd yn arbennig o anodd i'w gasglu oherwydd materion iechyd a diogelwch yn ymwneud â thraffig cyflym.

Mae data a gasglwyd o arolwg o Awdurdodau Lleol ac Asiantaethau Cefnffyrdd ar gyfer adroddiad Tackling Litter on Our Roads 2017[i] Cadwch Gymru'n Daclus yn ffurfio amcangyfrifon bod costau casglu sbwriel ar ochr y ffordd yn gyfwerth â mwy na £3 miliwn y flwyddyn yng Nghymru ac mae llawer o'r farn bod y broblem yn cynyddu.

Gall glanhau sbwriel ar ochr y ffordd wneud cau lonydd yn angenrheidiol, defnyddio rhwystrau taro ac arwyddion ychwanegol ac felly mae rhai asiantaethau'n codi sbwriel yn ystod y nos er mwyn cael yr effaith leiaf posibl ar draffig. Yn yr un modd, gall hyn leihau'r risg i weithwyr oherwydd, dros y 10 mlynedd diwethaf, cafwyd 12 o farwolaethau ymysg gweithwyr ffyrdd a 50 o ddigwyddiadau lle cafodd gweithiwr ffordd anaf ar y rhwydwaith ffyrdd[ii].

*Mae'r canllaw cryno hwn wedi ei ddylunio i gyd-fynd â'r deunyddiau a'r negeseuon a ddyluniwyd trwy brosiect Caru Cymru.

*Mae'r prif gynulleidfaoedd ar gyfer y ddogfen hon yn cynnwys awdurdodau lleol, Cynghorau Tref a Chymuned, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, Cyfoeth Naturiol Cymru a pherchnogion tir eraill yn ogystal ag asiantaethau eraill sydd â diddordeb yn datblygu polisïau i hyrwyddo gwaredu sbwriel yn ymwneud â smygu yn gyfrifol.

*Mae mwy o wybodaeth ar gael ym mhapur canllaw sbwriel ar ochr y ffordd Cadwch Gymru'n Daclus (2022). Ar gael ar gais.

## Sut gallwn fynd i'r afael â sbwriel ar ochr y ffordd?

Seilwaith:

1. Mae angen i awdurdodau lleol a pherchnogion tir eraill ystyried y bin cywir yn y lle cywir. Byddai casglu a dadansoddi data yn cefnogi datblygiad archwiliadau biniau a dylid ei adolygu'n rheolaidd.
2. Gallai symud biniau o rai ardaloedd, fel cilfannau gwledig, helpu i leihau sbwriel yn yr ardaloedd hynny ond dylid ei adolygu'n rheolaidd.
3. Dylid cynnal a chadw biniau mewn cilfannau lle byddai'r cyhoedd yn 'rhesymol i ddisgwyl' cyfleusterau (fel mannau gorffwys a mannau lle mae toiledau cyhoeddus neu lle mae bwyd yn cael ei ddarparu) a gellir eu defnyddio hefyd i hyrwyddo negeseuon atal sbwriel.

Ymyriadau:

1. Mae seicoleg traffig yn awgrymu ei fod yn well gosod ymyriadau mewn ardaloedd aros i atal gorlwytho a thynnu sylw tra'n gyrru. Ni argymhellir arwyddion ar ffyrdd prysur.
2. Cefnogir lleihau sbwriel ar ein ffyrdd hefyd trwy agendâu teithio llesol a'r uchelgais i leihau'r defnydd o gerbydau yn gyffredinol.
3. Mae gyrwyr masnachol wedi dweud bod diffyg cyfleusterau mewn mannau gorffwys, mannau parcio loriau a chilfannau yn her sylweddol iddynt. Bydd gwastraff a hylifau corfforol ar ochr y ffordd yn parhau i gynyddu mewn difrifoldeb oni fydd camau'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r pryderon hyn.
4. Bydd polisïau a chyfleusterau gwaredu gwastraff priodol gan gyflogwyr mewn canolfannau ac mewn cerbydau ar gyfer gyrwyr masnachol yn lleihau'r pwysau i greu sbwriel.

Negeseuon:

1. Mae pwyslais negeseuon yn amrywio ar gyfer gyrwyr personol a masnachol ac yn debygol rhwng demograffeg trefol a gwledig.
2. Lleoliad negeseuon yw'r agwedd bwysicaf i'w hystyried, gyda llawer o ffyrdd eisoes yn llawn arwyddion angenrheidiol a sylw gyrwyr 'wedi cyrraedd uchafswm'.
3. Dylai negeseuon ystyried llif ymwelwyr allanol i mewn i ardal a sut i'w 'cysylltu' â'u cyrchfannau.

Arloesi:

1. Mae newid ymddygiad yn dibynnu ar wneud yr ymddygiad dymunol yn hawdd ac yn gyfleus. Mae biniau ceir yn un ffordd o oresgyn y diffyg cyfleusterau a gall gefnogi negeseuon ymgyrch atal sbwriel ar yr un pryd.
2. Mae angen cynnal a chadw biniau arloesol sydd wedi eu gosod ar ochr ffyrdd yn gyson a byddai angen iddynt fod yn osodiadau hirdymor.

Gweithredu Cymunedol:

1. Mae nifer ddigynsail o wirfoddolwyr codi sbwriel i gydweithredu â nhw ar hyn o bryd yng Nghymru.
2. Diogelwch ar ochr y ffordd yw'r pryder mwyaf yn ymwneud â chodi sbwriel mewn grwpiau cymunedol yn yr ardaloedd hyn.
3. Mae Mabwysiadu Priffordd wedi bod yn eithriadol o lwyddiannus mewn mannau eraill a dyma'r unig ymgyrch ar ochr y ffordd sydd wedi cael ei werthuso'n drwyadl. Bydd y cynlluniau peilot yng Nghymru gyda Cadwch Gymru'n Daclus wedi eu cwblhau erbyn canol 2022 gyda'r bwriad o gyflwyno'r cynllun yn genedlaethol maes o law.

Gorfodi:

1. Mae angen diweddaru'r ddeddfwriaeth yng Nghymru er mwyn gwneud y cyfrifoldeb ar y gyrrwr yn gyfwerth â throseddau gyrru eraill er mwyn hwyluso camau gorfodi ar gyfer taflu sbwriel o gerbydau.
2. Gall gorfodi fod yn offeryn defnyddiol, yn arbennig mewn ardaloedd trefol neu ar brif ffyrdd ond nid yw'n ymarferol ar gyfer ardaloedd gwledig neu bellennig.
3. Mae arwyddion gorfodi ar eu pen eu hunain yn aneffeithiol oni bai eu bod wedi eu cefnogi gan fygythiad gwirioneddol a gweladwy o gael eich dal.
4. Bydd cwrs ymwybyddiaeth sbwriel a dulliau eraill o fynd i'r afael â throseddwyr yn uniongyrchol yn fwy effeithiol na gorfodi yn unig trwy ymgysylltu'n uniongyrchol â'r rheiny sy'n taflu sbwriel a rhoi opsiynau ychwanegol i awdurdodau lleol os yw casglu dirwyon yn her.

Monitro a Gwerthuso:

1. Nid yw monitro ffyrdd cyflym yn ymarferol ond mae'n llawer haws casglu data o ardaloedd gorffwys a chilfannau ac fe'u hargymhellir fel prif ardaloedd ar gyfer ymyrraeth
2. Gallai technolegau sydd yn dod i'r amlwg chwarae rôl yn casglu data ar sbwriel ar ochr y ffordd yn y dyfodol ond maent mewn cyfnod cynnar iawn yn eu datblygiad ar hyn o bryd.

## Cyfeiriadau

[i] Cadwch Gymru'n Daclus. (2017). *Tackling Litter on Our Roads*. Ar gael: https://keepwalestidy.cymru/caru-cymru/wp-content/uploads/sites/3/2021/09/Tackling-Litter-on-our-Roads-min.pdf. Cyrchwyd ddiwethaf 25 Ion 2022.

[ii] Highways England. (2017). *Highways England highlights dangers faced by road workers*. Ar gael: https://www.gov.uk/government/news/highways-england-highlights-dangers-faced-by-road-workers. Cyrchwyd ddiwethaf 28 Ion 2022.

carucymru
Gofalu am ein gwlad
Caring for Wales